**EDC-06-99(p1)**

## YMGYNGHORI Â BUSNES

### Amcan

1 Mae ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd statudol o dan Adran 115 o Ddeddf Llywodraeth Cymru i ymgynghori â busnes. Mae fframwaith yr ymgynghori hwn ei hun wedi mynd trwy ymgynghori eang gyda chyrff busnes yng Nghymru. Amcan y papur hwn yw cynnig trefniadau i'r Cynulliad gyflawni ei ddyletswydd statudol.

### Y Cefndir

2 Tua diwedd 1998, trefnodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyfres o gyfarfodydd ledled Cymru gyda chynrychiolwyr busnesau a'r TUC i drafod sut y gellid cyflawni'r ddyletswydd statudol. Bu'r cyfarfodydd hyn yn bwydo fframwaith arfaethedig, a ddisgrifiwyd mewn dogfen ymgynghori, a gyhoeddwyd ar 26 Mawrth 1999. (Ceir copi o'r ddogfen yn Atodiad A – mae ar gael ar y Rhyngrwyd o dan dudalennau'r Adran Diwydiant a Hyfforddiant.) Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghori yn Atodiad B.

3 Ers cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori, sefydlwyd Busnes Cymru. Corff cynhwysfawr yw Busnes Cymru a grewyd gan nifer o gyrff sy'n cynrychioli busnes yng Nghymru. Rhagwelwyd ei sefydlu wrth ddrafftio'r ddogfen ymgynghori. Dyma ei aelodau presennol: CBI Cymru; Sefydliad y Cyfarwyddwyr; Ffederasiwn y Busnesau Bach; Ffederasiwn Cyflogwyr Peirianwyr; Y Gymdeithas Gludiant; Chamber Wales; Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr; a Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai.

4 Ar 16 Gorffennaf, ystyriodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghori a'r cynigion cynnar ar gyfer y trefniadau pendant. Yr oedd y Pwyllgor yn cytuno â'r cynigion ac o'r farn y dylid annog cyrff busnes i droi at Bwyllgorau Pwnc y Cynulliad i godi eu pryderon o ran datblygu polisi yn eu meysydd. Er ei fod yn cydnabod bod angen rhoi trefniadau anffurfiol ar waith, yr oedd y Pwyllgor o'r farn y dylai fod yna drefniadau ffurfiol ar gyfer cysylltu â busnesau. Ers hynny, mae'r Prif Ysgrifennydd wedi cyfarfod â Busnes Cymru ac wedi cytuno ar y ffordd ymlaen a ddisgrifir yn y papur hwn â hwy.

### Y sefyllfa statudol

5 Mae Adran 115 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn dweud:

"Bydd y Cynulliad yn ymgynghori â'r cyrff, sy'n cynrychioli byd busnes, â'r cyrff eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol gan roi sylw i effaith arfer ei swyddogaethau gan y Cynulliad ar

fuddiannau byd busnes."

6 Eglurwyd gan y Gweinidogion, yn ystod hynt Deddf Llywodraeth Cymru drwy’r Senedd bod y geiriau "cyrff eraill" yn cynnwys mudiad yr undebau llafur. Nid yw’r trefniadau hyn yn cynnwys yr ymgynghori a fydd yn cael eu cynnal o bryd i’w gilydd gan y Cynulliad a’i gyrff noddedig â’r undebau hynny sy’n cynrychioli eu gweithwyr, ynghylch eu telerau a’u hamodau gwaith. Amcangyfrifir bod tua 15 y cant o CMC Cymru yn cael ei gynhyrchu gan gyrff "di-elw" y bernir yn gyffredinol bod eu busnesau yn ffurfio "economi gymdeithasol". Ymgynghorir â chyrff sy’n cynrychioli’r economi gymdeithasol pan fydd gweithgareddau’r Cynulliad yn effeithio ar fuddiannau busnes eu haelodau.

7 Mae cyngor cyfreithiol wedi datgelu nad yw bob gweithred gan y Cynulliad a allai effeithio ar fusnesau, ac yn enwedig ar gostau busnes, yn cael ei gynnwys o dan Adran 115. Dim ond y gweithredoedd a wneir gan y Cynulliad wrth iddo weithredu fel Llywodraeth yn unol â’r swyddogaethau a drosglwyddwyd iddo gan y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau neu a roddwyd iddo gan Ddeddf Llywodraeth Cymru sy’n cael eu cynnwys o dan Adran 115. Nid yw gweithgareddau "cymhennu" yn cael eu cynnwys, er y gallai rhai, er enghraifft caffael, effeithio ar gostau busnesau.

8 Mae Deddf Llywodraeth Cymru yn pennu isafswm o ofynion y mae’n rhaid i’r Cynulliad eu dilyn. Caiff y Cynulliad godi safonau uwch na’r rhai a bennir yn y Ddeddf. Yn y cyd-destun hwn, bydd y trefniadau ar gyfer ymgynghori â busnesau a ddisgrifir yn y papur hwn yn cael eu defnyddio er mwyn ymgynghori â busnes lle bynnag y bydd penderfyniadau’r Cynulliad yn effeithio ar eu buddiannau, ni waeth a yw hyn yn ofynnol o dan Adran 115 ai peidio.

9 Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yw’r per ymgynghori statudol, sy’n rhoi’r awdurdod i’r Cynulliad "wneud unrhyw beth … y cyfrifir ei fod yn hwyluso arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, neu yn gydnaws â hynny neu'n atodol i hynny." Mae hyn yn gymwys hefyd i ymgynghori â gweithgareddau "cymhennu", y mae’r per ar ei gyfer i’w gael hefyd yn Adran 40.

**Trefniadau cysylltu arfaethedig**

10 Bydd angen cysylltiadau rhwng y Cynulliad â Busnes ar sawl haen. Ni fyddai’r un corff yn fodlon ar gael ei eithrio rhag trafodaeth berthnasol. Mae hyn yn golygu y bydd angen gweithredu pob trefniant yn hyblyg, gan gofio beth yw’r materion gwirioneddol. Bydd yna dri math o gyswllt:

> Y Bartneriaeth Fusnes – ni fwriedir i hon gyflawni swyddogaeth statudol y Cynulliad ond yn hytrach fod yn fodd o adeiladu cysylltiadau da, er y bydd yn fforwm ar gyfer trafod unrhyw ddiffygion o ran perfformiad gan y Cynulliad yn ei ddyletswydd statudol;

cysylltiadau anffurfiol – gwelir hyn fel elfen bwysig o bartneriaeth y Cynulliad â busnes a fydd yn helpu i fwydo'r prosesau ffurfiol; a

phrosesau ymgynghori ffurfiol – drwy'r prosesau hyn y bydd y Cynulliad yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i ymgynghori â busnes.

**Y Bartneriaeth Fusnes**

11 Bydd grp eang ei sail, trawsbleidiol, a fydd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, ac yn cynnwys 11 o Aelodau'r Cynulliad, dau gynrychiolydd o TUC Cymru, dau gynrychiolydd o'r economi gymdeithasol sy'n cynrychioli'r sectorau cydweithredol a chymunedol a chynrychiolwyr Business Wales. Bydd yn ystyried materion datblygu busnes a materion economaidd cyffredinol yn ogystal â gwaith y Cynulliad o safbwynt busnes.

12 Yn ychwanegol, bydd mudiadau busnes yn cael eu hannog i droi at Bwyllgorau Pwnc y Cynulliad i dynnu eu sylw at eu pryderon ynghylch datblygu polisi yn eu meysydd. Mae hyn yn awgrymu y bydd angen i'r Pwyllgorau Pwnc fynegi'r hyn sydd yn eu cynlluniua gwiath i fudiadau busnes yn gyson. Bydd yna gysylltiadau rhanbarthol hefyd gyda phedwar Pwyllgor Rhanbarth y Cynulliad sy'n gofalu am ranbarthau economaidd Cymru.

**Cysylltiadau anffurfiol**

13 Cynhelir cyfarfodydd yn aml rhwng y Prif Ysgrifennydd ac Aelodau'r Cabinet a Busnes Cymru, gyda chynrychiolaeth amrywiol o du Busnes Cymru, yr economi gymdeithasol a Chyngres yr Undebau Llafur, gan ddibynnu ar yr agenda.

14 Cydategir y rhain gan gysylltiadau anffurfiol uniongyrchol rhwng mudiadau busnes unigol ac aelodauunigol o'r Cabinet neu swyddogion, ar gyfer materion penodol. Y disgwyl yw y câi'r cynigion eu trafod yn gynnar yn eu datblygiad. Yn y maes hwn y bydd mwyaf o angen i staff y Cynulliad feithrin perthynas weithio dda â'r mudiadau busnes sydd fwyaf perthnasol i'w gwaith.

**Dulliau ymgynghori ffurfiol**

15 Bydd angen cysylltiadau ffurfiol yn aml, er enghraifft mewn cysylltiad ag Arfarniadau o dan Adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwneud Offerynnau Statudol. Yn yr achosion hyn, gwneir cysylltiad gan amlaf drwy gynhyrchu a dosbarthu dogfennau ymgynghori'n briodol.

16 Fel rheol anfonir dogfennau ymgynghori at y prif gyrff sy'n cynrychioli busnes yn gyffredinol. Gellid cydategu'r dosbarthiad hwn drwy ddosbarthu dogfennau priodol i gyrff eraill sydd â diddordeb yn y pwnc o dan sylw. Bydd yn bwysig sicrhau, drwy gyfrwng cyhoeddusrwydd priodol, fod pob corff sydd â diddordeb yn cael cyfle i gymryd rhan mewn ymarferion

ymgynghori.

17 Er y dylid rhoi’r holl ddeunydd ymynghori ar y Rhyngrwyd, dylai’r Cynulliad fod yn flaenweithgar o ran dosbarthu dogfennau ar y dechrau, gan wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch pa gyrff y dylid eu cynnwys drwy anfon copïau papur o’r dogfennau atynt. Bydd profiad yn datgelu i ba raddau y gellir dibynnu ar y Rhyngrwyd er mwyn hwyluso cyfathrebu di-bapur effeithiol.

18 Fel rheol dylid caniatáu o leiaf deufis ar gyfer ymatebion i ymgynghoriadau ffurfiol. Serch hynny, nid yw mabwysiadu isafswm penodol yn disodli’r angen i wneud penderfyniadau fesul achos. Y cyngor cyfreithiol a gafwyd yw y dylai’r cyfnod ymgynghori fod yn ddigon at y diben ac y gallai achosion godi lle gallai cyfnod ymgynghori hirach fod yn angenrheidiol. Bydd ymgynghori’n gynnar, yn anffurfiol ac yn gyfrinachol yn ôl yr angen, yn elfen bwysig ar sicrhau bod cyfnod ymgynghori o ddeufis fel arfer yn ddigon.

**Gweithredu**

19 Câi’r cynigion hyn eu rhoi ar waith drwy gyhoeddi canllawiau i staff fel rhan o nodyn diwygiedig ar bapurau ar gyfer Aelodau’r Cabinet a’r Pwyllgorau. Cafwyd trafodaeth yngln â’r ymagwedd gyffredinol tuag at hyn mewn Cyfarfod Llawn ar 30 Mehefin. Byddai adroddiadau yn cael eu cynhyrchu’n flynyddol ar gyfer y Bartneriaeth Fusnes ac ar gyfer y Cynulliad ynghylch unrhyw achosion y byddai’r gymuned fusnes yn teimlo nad ymgynghorwyd ddigon yn eu cylch a pha gamau a gymerwyd yn sgil hynny.

**Cydymffurfio**

20 Mae’r trefniadau a nodir yn y papur hwn yn rhai newydd, ond maent wedi ennyn cefnogaeth y gymuned fusnes, ac felly nid ydynt yn gynhennus. Nid ydynt yn codi unrhyw bynciau o ran rheoleidd-dra na phriodoldeb.

**Goblygiadau Ariannol**

21 Fe fydd yna gost isel ychwanegol o ran staffio yn gysylltiedig â gwasanaethu’r Bartneriaeth. Mae’n bosibl y ceid costau ychwanegol hefyd petai’r Cynulliad, yn sgil Adran 115, yn cynnal mwy o ymarferion ymgynghori nag y byddai wedi’u cynnal fel arall. Serch hynny mae hyn yn anodd i’w fesur.

ATODIAD B

**YMATEBION I’R DDOGFEN FFRAMWAITH DDRAFFT**

1 Nododd y fframwaith drafft dair agwedd ar ymgynghori:

ffyrdd i fusnesau neu gyrff cynrychioliadol ddechrau ymgynghori â’r Cynulliad ar faterion sy’n peri pryder iddynt;

ym mha ffyrdd ac ar ba lefelau y gallai’r Cynulliad ymgynghori â busnes wrth i’w polisïau gael eu datblygu; a

rhai safonau sylfaenol ar gyfer ymgynghori.

**Ffyrdd i fusnesau gysylltu â’r Cynulliad**

2 Nodwyd pedair ffordd bosibl o gysylltu â’r Cynulliad yn y fframwaith:

ar lefel unigolion, cysylltiadau rhwng busnesau a’u Haelod Cynulliad lleol;

cyfarfodydd rhwng y pedwar fforwm economaidd rhanbarthol a Phwyllgorau Rhanbarth y Cynulliad;

yn uniongyrchol â phwyllgorau pwnc y Cynulliad; ac

ar lefel wleidyddol, drwy ddylanwadu ar faniffestos y pleidiau gwleidyddol.

3. At hynny, cynigiwyd y dylid cael cyfarfodydd rhwng prif fudiadau busnes cynrychioliadol a’r Cabinet, ddwywaith y flwyddyn i ddechrau, i fonitro perfformiad y Cynulliad ac i ddod o hyd i unrhyw broblemau sy’n deillio o’r prosesau ymgynghori.

**Ffyrdd o gynnwys busnesau**

4. Awgrymwyd tair ffordd o gynnwys cyrff busnes wrth lunio polisi:

mecanwaith ymgynghori ffurfiol gyda phwyllgor sefydlog i weithredu fel

pwynt canolog i holl fuddiannau busnes a chylchdro blynyddol ar gyfer ymgynghori;

adnabod y prif fudiadau a fyddai'n helpu i gydlynu'r berthynas rhwng y Cynulliad a busnes; neu

fframwaith mwy hyblyg – y Cynulliad i ymgynghori pa bryd bynnag y ceir mater priodol a bod y Cynulliad yn barod i gwrdd â mudiadau busnes pa bryd bynnag y mae'r olaf am godi mater.

**Safonau**

5. Cynigiwyd tair safon sylfaenol:

y dylai deunyddiau ymgynghori gael eu dosbarthu drwy'r Rhyngrwyd;

lle bynnag y bo'n bosibl, y dylid caniatáu lleiafswm o ddau fis ar gyfer ymatebion; ac

y byddai ymgynghori cynnar, anffurfiol yn galluogi mudiadau busnes i ddylanwadu ar bolisïau a llunio eu hymatebion i ymgynghori ffurfiol yn fwy rhwydd.

**Ymatebion i'r ymgynghori**

6. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 28 Mai 1999 a daeth 41 o ymatebion i law. Yn gyffredinol, yr oedd yr ymatebion yn croesawu'r fframwaith arfaethedig. Codwyd rhai pwyntiau penodol.

**Cyfrwng cyfathrebu**

7. Er i'r pwyslais ar dechnoleg gwybodaeth fel ffordd o wella'r cyfathrebu gael ei groesawu ar y cyfan, gofynnodd rhai mudiadau a oedd yn cynrychioli Mentrau Bach a Chanolig na ddylai'r e-bost na thudalennau ar y we gael eu defnyddio fel yr unig gyfrwng cyfathrebu gan nad oes gan nifer o gwmnïau bach yr adnoddau i gael mynediad i'r Rhyngrwyd.

**Rôl y Fforymau Economaidd Rhanbarthol**

8 Mynegwyd peth pryder yn yr ymatebion na ddylai'r pedwar Fforwm Economaidd gael eu gweld fel "cyfrwng ymgynghori" i'r gymuned fusnes ond yn hytrach fel gwir bartneriaethau sy'n cynrychioli'r holl fuddiannau economaidd, ac nid busnes yn unig, wrth gytuno ar flaenoriaethau datblygu economaidd ar gyfer rhanbarth.

**Materion Trawsbynciol**

9 Pwysleisiodd nifer o ymatebion yr angen i beidio â chyfyngu materion busnes i agenda'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn unig. Er enghraifft, credai'r Cynghorau Hyfforddi a Menter (CHM) y dylai ymgynghori â busnes gynnwys gwaith y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed a'r Pwyllgor Addysg cyn 16 oed.

**Sut i gynnwys busnes**

10 Yn gyffredinol, ni chefnogwyd enwi prif fudiadau i helpu i gydlynu'r berthynas. Cafodd yr ymatebion a oedd yn mynd i'r afael â'r mater hwn eu rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a oedd o blaid ymgynghori ad hoc rhwng y Cynulliad a busnes a'r rhai a gredai fod angen rhyw fath o strwythur. Er hynny, cytunwyd yn gyffredinol na ddylai unrhyw strwythur ffurfiol fod yn haearnaidd ac y byddai dogn helaeth o hyblygrwydd ym mherthynas y Cynulliad a busnes yn ddymunol.

11. Mae'n debyg bod y diffyg unfrydedd hwn ymysg ymatebwyr yn deillio o wahanol agweddau at ddiben ymgynghori. Yn gyffredinol, yr oedd mudiadau a oedd yn cynrychioli busnes yn gyffredinol, ac felly â diddordeb mawr yn yr amgylchedd economaidd cyffredinol, yn ffafrio'r ymagwedd strwythurol. Ymysg y mudiadau a oedd yn ffafrio'r ymagwedd hon yr oedd y CBI, y Siambrau Masnach, Sefydliad y Cyfarwyddwyr ac Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr.

12. Yr oedd gan y mwyafrif o fudiadau a oedd yn ffafrio'r ymagwedd "ad hoc", fuddiannau sectoraidd penodol. Yn gyffredinol, byddai'r mudiadau hyn yn disgwyl y byddai'r Cynulliad yn ymgynghori â hwy ar faterion sy'n berthnasol i'w sector penodol, drwy gyfrwng Pwyllgor Pwnc yn fwy na thebyg. Yr oedd y mudiadau hyn yn cynnwys Twristiaeth Gogledd Cymru, Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig, Sefydliad Aml-Fanwerthwyr Trwyddedig ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon.